

YR HYN Y MAE RHieni, GOFALWYR A PHOBL IFANC WEDI EI DDWEUD AMDANON NI:

"Byddwn yn argymhell y **Rhaglen Datblygu Rhieni** i unrhyw riant, yn enwedig rhieni newydd fel fi. Rwyf wedi dysgu llawer o wybodaeth ddefnyddiol yr wyf wedi dechrau ei defnyddio, a byddaf yn parhau i ddefnyddio a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd y tîm i gyd yn anhygoel.

"Mae dysgu am ddatblygiad ac anian wedi gwneud i mi sylweddoli y bydd yn gwneud pethau yn ei amser ei hun a'r cyfan y gallaf ei wneud yw deall a chefnogi. Dwi'n llai pryderus nawr." **(Rhieni a Mwy a Rhieni'n Gyntaf)**

Roedd Cryfhau Teuluoedd yn gwrs gwych, yn brofiad, yn wers bywyd ac yn ateb i'n problemau sylweddol. Roedd y tîm i gyd yn hollol anhygoel yn y grŵp ac mae ein sefyllfa deuluol wedi trawsnewid o ganlyniad.

"Roedd fy merch wrth ei bodd gyda'r crèche. Fel arfer mae hi'n mynd yn bryderus ac yn crio wrth gael ei gadael mewn gofal plant, ond fe fwynhaodd hi'r crèche hwn o'r sesiwn gyntaf un. Gwahanol syniadau a gweithgareddau a byrbrydau bob wythnos – rhai mewn ymateb i anghenion/ceisiadau/dewisiadau penodol – gwych! Caredigrwydd anhygoel, empathi a meddylgarwch. Allwn i ddim bod yn hapusach nag ydw i gyda'r crèche hwn! Mae fy merch yn siarad amdano drwy'r wythnos ar ôl y sesiynau. Diolch."

"Rwy'n llawer mwy hyderus ac yn gallu ymdopi nawr."

"Roedd treulio amser gyda fy rhieni yn ein gwneud yn agosach a chawsom lawer o hwyl gyda'n gilydd."

"Dwi wedi dysgu sut i beidio â cholli 'mhwyll dros bethau a beth i'w wneud pan fydda i'n teimlo dan bwysau."

"Rwy'n gwybod nawr sut i ddelio â phwysau gan gyfoedion."

"Rwy'n teimlo'n hollol gartrefol yn y **Grŵp Datblygu Rhieni**. Mae'n amgylchedd rhyfeddol o gynnes, agored a gonest."



"Os ydych yn ystyried **Gro Brain**, ewch amdani! Mae'n ffordd wych o gwrdd â rhieni eraill, dysgu sut mae eich babi'n datblygu ac mae'n wych i'ch babi sy'n cael chwarae yn y crèche. Cwrs gwych, hollol wych!"

"Roedd yr ychydig wythnosau o gynnydd yn teimlo fel bod rhywfaint o obaith. Rwy'n teimlo'n gadarnhaol am fod yn rhiant am y tro cyntaf ers amser maith." **(Rhieni a Mwy a Rhieni'n Gyntaf)**

"Rwy'n mwynhau'r sesiynau gan fy mod yn gwybod bod pawb yn yr un sefyllfa â mi a neb yn beirniadu." **(Teen Triple P)**

